

# TROSOLWG RISG

## WRTH GYRRAEDD

**AR FWS:** Gall y bws fynd i mewn i Barc Coffa Ynysangharad ar Bridge Street; gyrrwch am 5mya gan ddefnyddio goleuadau rhybudd. Os yw'r rhwystr ar gau ffoniwch Geidwaid y Parc (07786 523577) a gofyn iddyn nhw ddod i agor y rhwystr. Yna fe fyddwch chi'n stopio ger y 'cwt golff' a gadael y bws. Gall y bws yna fynd ymlaen i 'Gae'r Berllan' lle gall aros am y tro neu gall droi a mynd yn ôl yr un ffordd.

**AR FWS MINI:** Wrth fynd i mewn i'r Parc o Bridge Street, mae parcio ar gyfer y bws mini tua 20 metr i'r dde i lawr ffordd ymuno. Os bydd y rhwystr ar gau, ffoniwch Geidwaid y Parc (07786 523577) a gofyn iddyn nhw ddod i agor y rhwystr.

Unwaith y bydd y plant wedi gadael y bws, cerddwch i'r ardal chwarae yna gall un o'r athrawon adrodd i dderbynfa'r Lido i ddweud wrthyn nhw eu bod wedi cyrraedd. Bydd y plant yn cael eu cerdded gan aelod o staff ac athrawon/cynorthwywyr addysgu neu gynorthwywyr i Ystafell Gynhadledd y Lido sydd wedi'i lleoli ar y llawr 1 uwchben Caffi Glan-y-dŵr.

**AR Y TRÊN:** Pan fyddwch chi'n gadael yr Orsaf, croeswch y ffordd ar hyd y groesfan i gerddwyr, cerddwch i lawr i'r dref am tua 200mtr a chymerwch y tro cyntaf dros y bont gerddwyr i'r Parc. Trowch i'r chwith a cherddwch i fyny at y Lido, lle gall un o'r athrawon adrodd yn ôl i'r dderbynfa i ddweud eich bod chi wedi cyrraedd. Yna bydd y plant yn cael eu cerdded gan aelod o staff y Lido ac athrawon/ cynorthwywyr athrawon neu gynorthwywyr i Ystafell Gynhadledd y Lido sydd wedi'i lleoli ar y llawr 1<sup>af</sup> uwchben Caffi Glan-y-dŵr.

**AR DRAFNIDIAETH GYHOEDDUS:** Gwnewch eich ffordd at fynedfa Parc Coffa Ynysangharad ar Bridge Street a cherddwch i lawr cyn belled â'r man chwarae ac yna gall un o'r athrawon adrodd i dderbynfa'r Lido i ddweud eich bod wedi cyrraedd. Bydd aelod o staff y Lido ac athrawon/cynorthwywyr addysgu neu gynorthwywyr wedyn yn cerdded y plant i Ystafell Gynhadledd y Lido, sydd wedi'i lleoli, ar y llawr 1<sup>af</sup> uwchben Caffi Glan-y-dŵr.

Er bod y Parc yn amgylchedd diogel a llawn hwyl yn gyffredinol, wrth gerdded drwy'r Parc rydyn ni'n annog eich bod yn cadw at y llwybrau troed dynodedig a ddarperir bob amser.

## AR Y SAFLE

O fewn y Pecyn i Athrawon, mae nifer o weithgareddau sy'n digwydd o fewn cyffiniau'r Parc.

At ddibenion y trosolwg hwn o risg, mae'r risgiau'n cael eu categoreiddio fel 'ochr y pwll' ac 'ochr y parc'.

### OCHR Y PWLL

Cyn mynd at ochr y pwll, nodwch athrawon:

1. Rhaid i athrawon gysylltu â'r dderbynfa i gael mynediad at ochr y pwll. Nid yw unrhyw un yn cael mynd at ochr y pwll heb awdurdodiad.

2. Wrth fynd at ochr y pwll, rhaid i athrawon sicrhau bod plant yn cael eu goruchwylio bob amser.
3. Yna bydd aelod o staff yn mynd gyda'r grŵp ysgol tra'u bod nhw ar ochr y pwll.
4. Bydd yr aelod o staff wedi sicrhau, er nad ydyn ni'n disgwyl y bydd plant yn mynd i mewn i ddŵr y pwll, bydd offer achub bywyd addas ar gael o gwmpas y pwll i'w ddefnyddio pe bai damwain neu pe bai'r angen yn codi.
5. Mae yna linell wen wedi'i phaentio wedi'i dynodi sy'n amgylchynu'r tri phwll sy'n dangos maint y pwll gwreiddiol. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel y llinell derfyn ac 'NI DDYLAI'R' plant ei chroesi ar unrhyw adeg a rhaid i athrawon sicrhau bod yr holl blant yn aros ar ochr allanol y llinell hon i sicrhau nad oes perygl i blentyn syrthio i'r dŵr.
6. Os byddai damwain/digwyddiad yn digwydd, er bod hyn yn annhebygol, dylai athrawon a phlant adael ochr y pwll trwy'r dderbynfa a dylen nhw naill ai ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn y ganolfan ymwelwyr, os yw hi'n cael ei defnyddio fel canolfan ar gyfer y diwrnod, neu ymgynnull y tu allan i'r brif fynedfa i'r pwll, ar y llwybr troed.
7. Dylai un aelod o staff yr Ysgol aros ar ochr y pwll gyda'r aelod o staff y Lido a'r sawl sydd wedi'i anafu. Bydd yr aelod o staff yr ysgol yn cynorthwyo 'fel y'i cyfarwyddir' gan staff y Lido wrth ymdrin â'r digwyddiad.
8. Os byddai'r aelod o'r staff y Lido yn mynd yn sâl neu'n analluog yn ystod ymweliad yr ysgol, er bod hyn yn anhebygol, dylid gadael ochr y pwll yn syth trwy'r dderbynfa, gan roi gwybod i staff y dderbynfa am y digwyddiad. Yna dylai'r dosbarth naill ai ddychwelyd i'r ystafell ddosbarth yn y ganolfan ymwelwyr os yw hi'n cael ei defnyddio fel y ganolfan ar gyfer y diwrnod, neu ymgynnull y tu allan i brif fynedfa'r pwll, ar y llwybr troed.
9. Mae toiledau yn yr ystafelloedd newid mewnol sydd wedi'u lleoli oddi wrth ochr y pwll. Mae athrawon yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau, os yw plant yn cael defnyddio'r cyfleusterau hyn, eu bod yn cael eu goruchwylio lle bo hynny'n briodol.
10. Os yw'r larwm tân yn cael ei seinio, dylai'r athrawon adael yr Ystafell Gynhadledd ar unwaith yn drefnus ac ymgynnull ar y cyrtiau tennis yn y Parc. Os yw'r larwm tân yn cael ei seinio, PEIDIWCH Â DEFNYDDIO'R LIFT.
11. Cymorth cyntaf - gall Ceidwad neu aelod o staff y Lido cymwys ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad lle mae angen cymorth cyntaf.

## **OCHR Y PARC**

1. Er nad oes parcio cyhoeddus o fewn y tiroedd, ar adegau mae cerbydau gwaith a cherbydau dosbarthu'n cael eu defnyddio o gwmpas y parc. Mae'n ofynnol i'r cerbydau hyn gyfyngu eu cyflymder i uchafswm o 5 milltir yr awr gan ddefnyddio goleuadau rhybudd; fodd bynnag, mae'n ofynnol i athrawon gofio am y defnydd posibl o gerbydau o fewn y parc yn ystod ymweliad yr ysgol.
2. Mae'r Parc yn cael ei lanhau bob bore; fodd bynnag, dylai athrawon gynnal archwiliad gweledol o'r ardal y maen nhw'n bwriadu ei defnyddio o fewn y parc cyn defnyddio'r ardal.
3. Ar adegau lle mae dosbarthiadau'n rhannu'n grwpiau llai, dylai athrawon nodi ffiniau ffisegol fel coed, llinellau ffens neu lwybrau ac ati y dylai'r grwpiau dosbarth aros ynddyn nhw.
4. Os bydd plentyn yn mynd ar goll, er bod hyn yn anhebygol, yn ogystal â chysylltu â'r heddlu trwy ffonio 999, dylai'r staff gysylltu â Cheidwaid y Parc ar 07786523577, gan roi disgrifiad byr o'r plentyn. Bydd y rheolwr yn ei dro yn cysylltu ag ystafell TCC (CCTV) Canol y Dref a dechrau chwilio am y plentyn yn y parc.

5. Cymorth cyntaf - gall Ceidwad neu aelod o staff y Lido cymwys ymdrin ag unrhyw ddigwyddiad lle mae angen cymorth cyntaf.
6. Unrhyw bryderon am ddefnyddwyr eraill y parc - yn y lle cyntaf cysylltwch â Cheidwad y Parc neu aelod o staff y Lido.
7. Defnyddwyr eraill y Parc - byddwch yn ystyriol o ddefnyddwyr eraill y parc gan eu bod hefyd wedi dod i'r parc i fwynhau eu hunain.